

CYNGOR CYMUNED MAWDDWY

Cofnodion o Gyfarfod Blynyddol o'r Cyngor a gynhaliwyd Nos Fercher yr 17eg o Fai 2023 am 8.00yh yn Neuadd Dinas Mawddwy.

Presennol; Cyng. Catrin Johnson, John P Jones, Berwyn Harding, Wyn Lewis, Rhys Davies, Arfon Hughes, Sion Alun Roberts, John P Roberts, Lynne Mccrickett, Idris Jones a Huw T Jones (Clerc)

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd Catrin Johnson. Roedd ymddiheuriadau i law gan Cyng Geraint Morgans.

Gwahoddwyd ddatganiadau o ddirordeb am faterion ar yr agenda, ond ni chafwyd unrhyw ddatganiad.

Atgoffwyd pawb fod hwn yn Gyfarfod Blynyddol, ac adroddodd y Cyng Catrin Johnson am flwyddyn brysur o weithgarwch yn enw y Cyngor Cymuned. Ymysg y materion oedd fod y gof golofn wedi ei thacluso, carreg Bwlch y groes wedi i hail-osod, gwaith gyda'r hysbysfyrddion a byrddau gwybodaeth, ac ymgynghori gyda biniau baw cwn. Hefyd roedd gwaith i sicrhau fod defnydd arian trethdalwyr yn cael eu defnyddio yn gyfrifol, paratodau a gosod coeden nadolig, trefniadau Sul y Cofio, trefnu Cyfarfod cyhoeddus parthed Eglwys Llanymawddwy, danfon ymlaen l adran priffyrdd a chefnffyrdd am faterion sy'n dod l'n sylw, ymateb ar faterion cynllunio drwy gydol y flwyddyn, sicrhau fod gwair mynwentydd yn cael eu torri a chadw yn daclus, a threfniadau hyfforddiant l Gynghorwyr. Diolchodd yn fawr iawn l'r Clerc am ei waith, ac i bawb arall am eu cydweithrediad.

Awgrymwyd y dylid rhoi yr adroddiad ar ambell hysbysfwrdd er budd y cyhoedd.

2. Nodwyd nad oedd unrhyw gais i gael cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. **Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod diwethaf** a gynhaliwyd ar yr 8fed o Fawrth ar gynnig Cyng Idris Jones a'i eilio gan Cyng Wyn Lewis.
4. **Materion yn codi**
 - a) Cyfeiriodd Cyng Catrin Johnson at y sylw gan Cyng John P Roberts ar ddechrau y cyfarfod diwethaf ar yr 8fed o Fawrth ynglyn a dangos diddordeb, a chadarnhaodd ei bod wedi dangos ei chyflogaeth gyda Chyfoeth Naturiol Cymru yn y Cofrestr buddiant ar ddechrau y flwyddyn 2022/23, ac felly wedi dilyn y rheolau.
 - b) **Materion Priffyrdd/Cefnffyrdd** – adroddwyd nad oedd ymateb i'r materion Cefnffyrdd ers tro diwethaf, a byddai'r Clerc yn atgoffa. Nodwyd y diweddaraf yng nghyswllt darn o dir yn Lawnt y Plas lle nad oedd sicrwydd o berchnogaeth. Roedd e-bost i law gan Cyng John P Roberts yn cadarnhau mai Cwmni Nod Glas oedd berchen y darn dan sylw, ac wedi ei drosglwyddo 14.05.2021, a dangoswyd y map. Mynegwyd siom fod hyn wedi achosi cymaint o waith i'r Clerc, ac na ddywedwyd hyn yn gynt gan Cyng Arfon Hughes. Dywedodd

Cyng John P Roberts map dryswch gyda'r map a gafodd Cwmni Nod Glas oedd wedi achosi hyn, ac nad oedd bai ar neb.

- c) **Byrddau gwybodaeth/dehongli** - adroddwyd y diweddaraf, a dywedwyd nad oedd angen y cyllid a gynigiwyd gan Gwmni Nod Glas gyfer 3 ychwanegol, sef Aberangell, Mallwyd a Bwlch yr Oerddrws - gan fod hyn eisoes mewn llaw gan Catrin a oedd yn ymdrin a'r mater yma. Roedd y sefyllfa wedi ei hamlinellu gan y Clerc i bawb mewn e-bost ar y 26ain o Ebrill. Dangoswyd y fframiau oedd ganddi i'w gosod, a dywedwyd fod y byrddau eu hunain mewn cyflwr da. Cadarnhawyd fod pob dim mewn trefn I Catrin ddychwelyd at y Parc Cenedlaethol gyda'r mater yma. Byddai 6 o fyrddau y Cyngor Cymuned gyda logo y Cyngor arnynt, a gerllaw y 3 bwrdd oedd wedi eu cyllido gan yr SMS. Cadarnhawyd fod pob dim yn iawn I symud un Llanymawddwy at yr hysbysfwrdd yn y maes parcio yno.
- d) **Torri gwair mynwentydd Mallwyd, Dinas Mawddwy a Llanymawddwy 2023** – cadarnhawyd y trefniadau unwaith yn rhagor eleni, a'r e-bost a ddanfonwyd I bawb yn amlinellu'r trefniadau ar yr 2ail o Fai. Cadarnhawyd yr asesiad risc a oedd wedi ei danfon allan I bawb o'r Cyngorwyr ymlaenllaw. Un mater a oedd angen sicrwydd oedd fod yna arwyddion gan Tegid a Hefin i rybuddio dim mynediad pan oedd y gwaith yn mynd yn ei flaen yn y mynwentydd.
- e) **Gwerthiant Eglwys Llanymawddwy** – adroddodd y Clerc yn llawn am y datblygiadau ers y cyfarfod diwethaf, a'r cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd yn Neuadd Dinas ar y 15fed o Fawrth. Darllenodd yn llawn y nodiadau a wnaeth yn dilyn y cyfarfod, a chadarnhawyd eu bod yn gywir. Cyfeiriodd at nifer o ohebiaethau gyda David Flatley ar ran Ffrindiau Tydecho, a'r llythyr a ddanfonwyd I bawb ar y 27ain o Fawrth, hefyd gyda Rachel Morley o 'Friends of Friendless Churches' a oedd yn dweud nad oedd yna gymorth yn bosib. Yna darllenwyd yn fanwl e-bost Michael Plane o'r Eglwys yng Ngymru dyddiedig Mai 15fed yn amlinellu dau opsiwn fel y ffordd ymlaen. Yn dilyn trafodaeth faith, penderfynwyd ar gynnig Cyng John P Roberts a'i eilio gan Sion Alun Roberts a gyda chefnogaeth unfrydol i fynd ymlen gyda opsiwn 1, ond gyda chais i ymestyn cyfnod chwilio am ffynonellau cyllid /astudiaeth dichonoldeb i 18 mis.
- f) **Mastiau ffon ger Penrhiwcul** – nodwyd fod cais cynllunio wedi ei gylchredeg ers y cyfarfod diwethaf yn cadarnhau estyniad I'r twr yno.
- g) **Llwybr troed o flaen rhif 8, Lawnt y Plas** – adroddwyd fod hwn wedi ei fabwysiadu gan adran Briffyrdd y Cyngor, ac y byddai rhaid codi y mater gyda hwy.

5. Ethol Swyddogion 2023-24.

Penderfynwyd ar gynnig Cyng John P Roberts a'i eilio gan Cyng. Berwyn Harding i gadw yr un swyddogion ar gyfer 2023-24, sef ;

Cadeirydd – Catrin Johnson

Is- Gadeirydd – John P Jones

Clerc - Huw T Jones.

(Cadarnhaodd y Clerc ei fod yn hapus gyda swm y costau a'r gydnabyddiaeth yr oedd yn ei dderbyn, ac nad oedd angen ystyried hyn.)

6. **Cadarnhawyd ddyddiadau gweddill cyfarfodydd Cyngor Mawddwy ar gyfer blwyddyn 2023/24, sef 12/07/23, 30/08/23, 11/10/23, 6/12/23, 24/1/24, 6/03/24.**

7. **Dosbarthwyd Cofrestr Buddiannau Cyngorwyr i bawb i'w cwblhau ar gyfer blwyddyn 2023-24.**

Penderfynwyd ar gynnig Cyng. Wyn Lewis a'i elio gan Cyng. Lynne Mccrickett a gyda chefnogaeth pawb, i fabwysiadu y cod ymddygiad, y rheoliadau arianol/sefydlog, yr asesiad risg, ynghyd a'r holl bolisiau eraill, sef pryderon a chwynion, cyfle cyfartal, amgylcheddol, bioamrywiaeth, diogelu data a rhyddid gwybodaeth.

Roedd y rhain unai wedi eu dosbarthu ymlaenllaw neu ar y wefan.

8. Materion Cynllunio

Adroddwyd am y ceisiadau a oedd wedi ei danfon allan l'r Cyngorwyr ers y cyfarfod diwethaf, sef

Caniatad o osod bwrdd dehongli Maes parcio Blaen Cywarch NP5/74/AD422B, hefyd gosod un yn Maes parcio Llanymawddwy NP5/74/AD377A, hefyd un yn Maes Parcio Bwlch y Groes NP5/74/AD374A.

Nid oedd unrhyw wrthwynebiad l'r 3 yma.

Hefyd;

Caniatad gosod estyniad twr 5m i'r gosodiad presennol yn Penrhiwcul, Mallwyd – NP5/74/474A

Nid oedd unrhyw wrthwynebiad.

9. Trafodwyd **cynrychiolaeth y Cyngor Cymuned ar bwyllgorau / sefydliadau allanol ar gyfer 2023-24** a phenderfynwyd fel a ganlyn;

Un Llais Cymru – Wynn Lewis a Catrin Jones

Y Neuadd Bentref yn Dinas – Huw T Jones

Pwyllgor yr Hen Fynwent – Catrin Jones a Lynne Mccrickett

Eco Dyfi - Rhys Davies

Biosphere Dyfi – Arfon Hughes

10. Materion Cyllid.

a) Cyflwynwyd cyfrifon 2022-23 (a oedd wedi eu paratoi a'u danfon i'r archwilydd mewnol eisoes) yn swyddogol i'r Cyngor. Roeddynt bellach wedi eu dychwelyd heb unrhyw ymholiadau. Cyfeiriwyd at yr holl gofnodion, y dogfennau cyllid a'r crynodeb, ac roedd y cyfan wedi eu cyflwyno yn electroneg eleni am y tro cyntaf. Roedd y cyfan yn awr yn barod i'w cyflwyno l'r Archwilydd allanol maes o law. Diolchwyd yn fawr iawn l'r Clerc am ei waith trylwyr unwaith yn rhagor.

- b) Nodwyd ohebiaeth ac anfoneb y cwmni yswiriant BHIB ar gyfer 2023-24 am gyfanswm o £318.56 a oedd wedi ei ddanfôn allan ymlaenllaw l bawb o'r Cyngorwyr. Cytunwyd ar hyn, a chadarnhwyd manylion y gorchudd yswiriant ar gyfer 2023-24.
- c) Nodwyd fod rhan gyntaf y praesept am 2023-24 wedi ei dalu l'r cyfrif, sef £5,350. Nodi balansau cyfrifon y Cyngor (17/05/23), sef Cyfri Cyfredol £5831.04, Cyfri Claddedigaeth £437.87 Cyfri Cadw £770.42.
- d) Nodwyd anfoneb Archwilio Cymru am archwiliad 2021-22 sef £232.00, a chytunwyd i'w dalu.
- e) Nodwyd e bost gan Neuadd Aberangell i ddiolch am gyfraniad diweddar o £300 i'w coffrau
- f) Nododd y Clerc ei fod wedi cael llawer iawn o waith yn ddiweddar yn cysylltu gyda Banc Barclays yng nghyswllt diweddariad gwybodaeth y cyfrif.

11. Gohebiaeth.

- a) Nodwyd ohebiaeth am Adolygu Cynllun Datblygu Lleol Eryri, a bod webinar l'w chynnal Dydd Iau 8fed Mehefin dros zoom, gyda gwahoddiad i 2 gynrychiolydd o'r Cyngor. Cytunodd Cyng Catrin Jones a Lynne Mccrickett fynychu.
- b) Nodwyd e-bost gan Ifan Llewelyn Jones, Swyddog Datblygu Iaith Cyngor Gwynedd yng nghyswllt cefnogi dysgwyr cymraeg. Byddai'r Clerc yn ei rannu i'r Cynghorwyr.

12. Unrhyw Fater arall.

- a) Cyfeiriwyd unwaith yn rhagor at gyflymder ceir sy'n mynd tua Lawnt y Plas yn Dinas, a bod perygl o ddamwain. Cyfeiriwyd yn arbennig at blant ar eu beics, ac hefyd bod ceir yn parcio ar y pafin er mwyn mynd i'r toiledau gerllaw. Yr ateb blaenorol a gafwyd oedd y byddai 20mya yn gwella'r sefyllfa, ond nid oedd hyn ddigon da. Roedd angen ysgrifennu eto, a pwysu am ffordd o wella'r sefyllfa.
- b) Cyfeiriwyd at y llwybr oddiar caeau Tanybwlech a oedd angen gwaith arno, gan ei fod bron a chau mewn rhai llefydd. Addawodd Cyng Arfon Hughes ymdrin a hyn.
- c) Roedd y tyllau ar ffordd Llanymawddwy wedi eu llenwi, a diolchwyd i'r Adran Briffyrdd am y gwaith da.
- d) Roedd arwydd bod yr hen ffordd heibio Dugoed Isaf tua Penrhiwcul wedi ei chau, ac roedd angen gwybod y rhesymau am hyn.
- e) Roedd ffenestr wedi ei thorri ar kiosk o dan Pennantigi.
- f) Roedd arwyddion ar y ffordd ar yr A470 ar dop Bwlch yr Oerddrws angen sylw.
- g) Roedd yna hen arwydd ffordd cast ar yr A470 ar Bwlch yr Oerddrws wedi torri ac angen sylw.
- h) Adroddwyd fod wal derfyn ym mynwent Mallwyd yn gwyro, ac roedd angen cael golwg ar y sefyllfa.

**DYDDIAD CYFARFOD NESAF; NEUADD DINAS MAWDDWY NOS FERCHER
12fed o Orffennaf 2023 , 8.00y.h.**